









Trefn y flwyddyn

- Amserlen – darlith nesaf 16/10 9-11 TL3
- Themâu penodol a pherthnasol: pwyntiau iaith
- Manylion asesu

Asesu

I'w cyflwyno
MAWRTH
19eg 2019

Elfen Asesu 2: Portffolio Tystiolaeth – 60%

Tasg 1: Dewis stori addas i'w chyflwyno i grŵp o blant gan nodi'r rhesymeg dros ddewis y stori honno a'r prif nodau ynghlwm wrth ddewis y stori. Dylid nodi'r gy nulleidfa arfaethedig, a'r math o gyfleoedd addysgu iaith y byddai'r stori yn eu cynnig. Paratoi un adnodd sy'n seiliedig ar y stori ac yn addysgu'r Gymraeg fel ail iaith neu fel iaith gyntaf. (hyd at 250 gair)

Tasg 2: Darllen stori i grŵp o blant yn ystod eich cyfnod PAP a chwblhau un gweithgaredd sy'n gwneud defnydd o'r adnodd sydd wedi'i baratoi gennych. Bydd angen i chi ffilmio'r gweithgaredd hwn i'w ddadansoddi gennych ac i'w gyflwyno fel rhan o asesiad y modwl. (hyd at 8 munud)

Tasg 3: Adfy tyriad ysgrifenedig ar dasg 2 (hyd at 1500 gair)

Gloywi iaith - Adnoddau defnyddiol

- <http://www.canolfanpeniarth.org/CBAG/>
- www.porth.ac.uk
- www.colegcyymraeg.ac.uk
- www.geiriadur.net
- <http://www.geiriaduracademi.org>



Rhyngweithio

PERTHNASEDD I'CH GWAITH YN Y DYFODOL

Holi ac ateb cwestiynau

- Ar lawr y dosbarth
- Mewn cyfweliad
- Noson Rieni



Cwestiynau: Cysylltiadau FfLIRh

- o Llafaredd – Blwyddyn 5
- o “gwrando ar eraill, gofyn cwestiynau ac ymateb i'r cynnwys a safbwyntiau'r siaradwr”



Ti / chi - rheol AUR

- o Cofiwch ofyn cwestiwn lluosog i grŵp o blant a chwestiwn unigol i unigolion.
- o Fwynheuo**och** chi, bawb?
- o Fwynheua**ist** ti, Nia?

Cwestiynau?

Mae dau brif fath o gwestiwn ...

cwestiwn caeëdig
dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib

cwestiwn agored
amrywiaeth o atebion posib

Cwestiynau Caeëdig ...

Er mai dim ond ateb cadarnhaol neu negyddol sy'n bosib i gwestiwn caeëdig, mae sawl ffordd o ateb yn gadarnhaol neu'n negyddol yn Gymraeg

Oes
Nac oes

Ydy
Nac ydy

Do
Naddo

Oedd
Nac oedd

Ie
Nage

Cei
Na chei

Baswn
Na faswn

Pa un ddylwn i ei ddefnyddio?

Bydd cliw yn y cwestiwn fel arfer!

Oes car gennyf ti? Oes / Nac oes

Ydy e'n mynd heno? Ydy / Nac Ydy

Oeddet ti'n disgwyl ennill? Oeddwn / Nac oeddwn

Fyddi di'n gorffen am 3? Byddaf / Na fyddaf

Est ti i'r llyfrgell ddoe? Do / Naddo

I'r llyfrgell est ti ddoe? Ie / Nage

Ffurio cwestiwn caeëdig – oes neu ydy?

ATEBION – Oes / Nac oes neu Ydy / Nac ydy

Ymarfer...

**Gwaith Pâr – Gofynnwch 5
cwestiwn caeëdig i'ch gilydd –
cofiwch eu hateb yn gywir!**

Yna, meddyliwch am 5 cwestiwn caeedig i'w gofyn ar ddechrau'r bore neu'r prynhawn yn eich dosbarthiadau. Sut gallwch chi sicrhau bod y plant yn eu hateb yn gywir?

Saw! a Faint?

Sawl gydag enw unigol – Sawl plent yn sy yn y dos bart h?

Faint gydag enw lluosog, ond cofiw ch yr 'o' a'r t reigladd!

Faint o blant sydd yn y dos bart h?

[illegible]

Tasg

○ Cywiro cwestiynau

1. Faint **d**alon nhw am y tŷ newydd?
2. Pam **d**est ti i'r cyngerdd neithiwr?
3. Pwy **b**rynodd y bwyd i chi?
4. Sut **c**yrhaeddoch chi os oedd hi'n bwrw eira?
5. Sut **d**dosbarth sy ganddi eleni?
6. Pryd **g**adawodd hi'r ysgol gynradd?
7. Ble prynoch chi'r llyfrau a'r **p**ensiliau?
8. Beth gawsoch chi i **f**recwast y bore 'ma?
9. Pa **g**amgymeriadau wnaethoch chi?
10. Pryd **d**aeth hi i fyw i'r ardal yma?
11. Pam **d**ywedaist ti gelwydd wrth yr athrawes?
12. P'un **g**yrhaeddodd yn hwyr y bore 'ma?
13. Pwy gariodd y **t**egan **m**awr i'r iard?
14. Beth **d**dwywedodd hi wrthoch chi?
15. Ble cysga**i**st ti yn ystod yr eisteddfod?

Y Gorffennol

- Rhaid treiglo'n feddal wrth ofyn cwestiwn sy'n defnyddio berf gryno yn y gorffennol e.e.
- Ddarllenodd e'r llyfr?
- Welodd e'r rhaglen?
- Dderbyniodd hi'r sefyllfa?



Y Gorffennol

- Os ydych am fod yn fwy ffurfiol, rhaid defnyddio'r geiryn gofynnol 'a'
- A ddarllenodde'r llyfr?
- A welodd e'r rhaglen?
- A dderbyniodd hi'r sefyllfa?
- Mae'r treigladd yn arnos!



Mini Meicro

Dew iswch lun. Mewn grŵp, rhaid i chi gymryd eich tro i chwarae rôl yr athro/awes a'r disgyblion. Rhaid i chi drafod y llun gan ofyn cwestiynau i'r plant amdano – paratowch o leiaf 10 cwestiwn gwahanol (rhaid cael eiddig a rhai agored).

Cofiwch – agor a chlo'i'r sesiwn, cywiro'n sensitif ayyb



Tasg Mini-Meicro: Cyfweliad neu noson rieni

Dewiswch sefyllfa – naill ai gyfweliad neu noson rieni.

Ewch ati i ofyn 10 cwestiwn i'ch gilydd.

Adfyfyrrio

- Canfod eich cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella.
- Ystyried yr ystod o gwestiynau y gellid eu defnyddio yn eich gwersi.



Y tro nesaf

- 16eg Hydref 9-11 TL3

[illegible]